Department
for Environment
Food & Rural Affairs

# Rheoleiddio nwyon Ff ym Mhrydain Fawr: Diwygio'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC

## Ymgynghoriad

Tachwedd 2025

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn fgas@defra.co.uk

# Cynnwys


Y Broses Ymgynghori ..... 4

Sut i ymateb ..... 4

Hyd ..... 4

Y weithdrefn gwyno ..... 5

Defnyddio a rhannu eich data a'r wybodaeth a ddarperir ..... 5

Gwybodaeth Arall ..... 5

Cyflwyniad ..... 6

Beth yw nwyon Ff? ..... 6

Deddfwriaeth nwyon Ff ym Mhrydain Fawr ..... 7

Ymgynghoriad ar ddiwygio'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC ..... 9

Cefndir ..... 9

Cynnig i ddiwygio'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC ..... 15

Cwestiynau am y cynnig ..... 18

# Y Broses Ymgynghori

## Sut i ymateb

A fyddech cystal ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Ar-lein drwy borth ymgynghori Citizen Space https://consult.defra.gov.uk/fluorinated-gases-and-ozone-depleting-substances-policy-team/f-gas-regulation-in-great-britain

Mae Citizen Space yn adnodd ymgynghori ar-lein. Rydym yn eich annog yn gryf i ymateb drwy Citizen Space gan fod defnyddio'r arolwg ar-lein o gymorth mawr wrth inni ddadansoddi'r ymatebion. Mae opsiynau eraill ar gael isod os oes angen:

- Drwy e-bost i fgas@defra.gov.uk

- Ymatebion ysgrifenedig drwy'r post, gan nodi pa gwestiynau yr ydych yn ymateb iddynt:

F gas Regulation in Great Britain: Consultation
Domestic F gases and ODS Team
Defra
1st Floor, Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Sylwch fod yn rhaid i unrhyw ymatebion sy'n cael eu hanfon drwy'r post fod wedi cyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad er mwyn cael eu hystyried. Yn anffodus, ni allwn ddadansoddi unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn. I sicrhau bod eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb ar-lein ar Citizen Space.

Pan fyddwch yn ateb, cadarnhewch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad, a nodwch:

- eich enw
- eich swydd (os yw'n berthnasol)
- enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol)

## Hyd

Dylid ymateb erbyn 11:59pm ar 17 Rhagfyr 2025. Ymgynghoriad chwe wythnos yw hwn.

## Y weithdrefn gwyno

Dylid cyflwyno pob cwyn am y broses ymgynghori i'r Cydlynydd Ymgynghori drwy e-bost: consultation.coordinator@defra.gov.uk. Er mwyn bodloni safon gwasanaeth Defra, ymatebir i bob cwyn o fewn 15 diwrnod iddynt ddod i law.

## Defnyddio a rhannu eich data a'r wybodaeth a ddarperir

Bydd gwybodaeth a sylwadau a gyflwynir drwy'r ymgynghoriad hwn yn cael eu defnyddio i lywio ein hystyriaeth o'r camau nesaf. Bydd adroddiad yn crynhoi'r ymatebion ac amlinelliad o'r camau nesaf yn cael eu cyhoeddi ar gov.uk ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn yr hysbysiad preifatrwydd ymgyngoriadau ac ymarferion galw am dystiolaeth, sydd ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-for-evidence-exercises-privacy-notice.cy

Wrth fwrw ymlaen â datblygu polisi yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, ond hefyd â'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, yr Adran Busnes a Masnach, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Trysorlys EF a Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen.

Mae'n bosibl y bydd yna adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu wrth ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, â dadansoddwyr allanol. Dim ond er mwyn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a rhoi adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion y gwneir hyn.

Hefyd, mae'n bosibl y bydd ymatebion yn cael eu rhannu ag Asiantaeth yr Amgylchedd, fel gweinyddwr a gweithredwr agweddau ar y system reoleiddio nwyon Ff ym Mhrydain Fawr, fel bod unrhyw fesurau rheoleiddio yn y dyfodol yn dilyn yr ymgynghoriad hwn yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith mewn ffordd gydlynol.

## Gwybodaeth Arall

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag egwyddorion ymgynghori Swyddfa'r Cabinet, sydd ar gael ar: Consultation Principles.docx (publishing.service.gov.uk).

# Cyflwyniad

## Beth yw nwyon Ff?

Mae nwyon wedi'u fflworineiddio (nwyon Ff) yn deulu o nwyon wedi'u gweithgynhyrchu sy'n cael eu defnyddio at amrywiaeth o ddibenion diwydiannol, masnachol a domestig. Yn dilyn mesurau rheoleiddio i roi'r gorau'n raddol i ddefnyddio sylweddau sy'n teneuo'r osôn (ODS) yn unol â Phrotocol Montreal ar Sylweddau sy'n Teneuo'r Haen Osôn (Protocol Montreal), roedd nwyon Ff yn cael eu cyflwyno’n aml i ddisodli ODS. Er nad yw nwyon Ff yn teneuo'r osôn, maent yn nwyon tŷ gwydr pwerus, gyda photensial cynhesu byd-eang (GWP)[1] sy'n gallu bod hyd at 22,800 gwaith yn uwch na charbon deuocsid. Mae'r gwerthoedd GWP y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn dod o bedwerydd adroddiad asesu y Panel Rhyngwladol ar y Newid yn yr Hinsawdd. Adlewyrchir y gwerthoedd GWP hynny yn Atodiad 1 y Rheoliad nwyon Ff.

Cyfrannodd nwyon Ff at 1.83% o allyriadau nwyon tŷ gwydr ledled y DU yn 2023, a gellir eu rhannu’n bedwar grŵp: hydrofflworocarbonau (HFC), sylffwr hecsafflworid (SF6), perfflworocarbonau (PFC) a nitrogen trifflworid (NF3).[2] Nwyon HFC yw'r prif grŵp o nwyon Ff, ac roeddent yn gyfrifol am 93.7% o allyriadau nwyon Ff y DU yn 2023[3]. Y defnydd mwyaf o nwyon HFC o bell ffordd yw fel oeryddion yn y sector oeri, aerdymheru a phympiau gwres (RACHP) (79.5% o nwyon HFC).[4] Ymhlith ffynonellau eraill allyriadau nwyon Ff mae mewnanadlyddion dos mesuredig (MDI), peirianwaith switsio wedi’i ynysu gan nwy yn y sector pŵer, ewynnau, systemau diogelu rhag tân, erosolau a defnyddiau technegol eraill.

---

[1] Diffinnir GWP nwy fel ei ddylanwad cynhesu mewn perthynas â dylanwad cynhesu carbon deuocsid dros gyfnod o 100 mlynedd.

[2] Final UK greenhouse gas emissions national statistics: 1990 to 2023. Final greenhouse gas emissions 2023 – Table 1.1.

[3] Final UK greenhouse gas emissions national statistics: 1990 to 2023. Final greenhouse gas emissions 2023 – Table 1.1.

[4] Final UK greenhouse gas emissions national statistics: 1990 to 2023. Final greenhouse gas emissions 2023 – Table 1.6.

## Deddfwriaeth nwyon Ff ym Mhrydain Fawr

Ym Mhrydain Fawr, mae nwyon Ff yn cael eu rheoleiddio drwy ddeddfwriaeth a gymathwyd gan gynnwys y Rheoliad ar Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworineiddio (Rheoliad nwyon Ff)[5]. Prif amcan y Rheoliad nwyon Ff yw lleihau allyriadau nwyon Ff.

Mae'r Rheoliad nwyon Ff yn amlinellu'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC: mesurau sy'n capio ac yn lleihau'n raddol uchafswm cyffredinol y nwyon HFC a roddir ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, boed wedi'u cynhyrchu neu eu mewnforio, am y tro cyntaf. Mae'r darpariaethau allweddol yn Erthygl 15 ac Atodiad 5[6] y Rheoliad nwyon Ff. Mae Atodiad 5 y Rheoliad yn nodi'r amserlen ar gyfer y gostyngiad graddol ar hyn o bryd, a'r camau ychwanegol i bennu'r uchafswm o nwyon HFC y gellir eu rhoi ar y farchnad. Mae'r amserlen ar gyfer y gostyngiad graddol yn nodi camau a fydd, erbyn 2030, yn cyrraedd gostyngiad o 79% yn y nwyon HFC a roddir ar y farchnad o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Mae'r llinell sylfaen yn cael ei phennu fel cyfartaledd blynyddol cyfanswm y nwyon HFC a roddwyd ar y farchnad yn ystod cyfnod y llinell sylfaen, sef 2015-2019.

O fewn terfynau'r cap a'r gostyngiad graddol cyffredinol mewn nwyon HFC, mae cwota'n cael ei ddyrannu'n flynyddol i gynhyrchwyr a mewnforwyr yn unol ag Erthygl 16 y Rheoliad nwyon Ff. Mae'r dyraniadau cwota yn seiliedig ar gyfwerthydd carbon deuocsid (CO2e)[7], ac maent yn gosod terfyn blynyddol ar faint o nwyon HFC y gellir eu rhoi ar y farchnad. Mae'r dyraniadau hynny'n cael eu gostwng dros amser.

I ddechrau, dim ond i nwy mewn swmp yr oedd y gostyngiad graddol yn berthnasol, ond o 1 Ionawr 2017 ymlaen nid oedd modd rhoi offer oeri, aerdymheru a phympiau gwres oedd wedi'u llenwi ymlaen llaw â nwyon HFC ar y farchnad oni bai bod y nwyon HFC yn yr offer hynny yn cael eu cyfrif yn rhan o'r system gwota (fel y nodir yn Erthygl 14(1)). O ganlyniad, mae angen awdurdodiadau cwota er mwyn rhoi offer sy'n cael eu llenwi ymlaen llaw â nwyon HFC ar y farchnad, a rhaid i fewnforwyr offer gael awdurdodiadau cwota digonol, gan ddeiliad cwota, i gwmpasu'r nwyon HFC sydd yn yr offer a lenwyd ymlaen llaw. Mae'r broses ar gyfer trosglwyddo cwotâu ac awdurdodiadau wedi'i nodi yn Erthygl 18.

Er bod yn rhaid defnyddio'r cwota blynyddol a ddyrannwyd o fewn y flwyddyn galendr, nid oes cyfyngiad amser ar awdurdodiadau cwota ac ar ôl iddynt gael eu hawdurdodi gellir eu

---

[5] Fel rhan o'r broses o adael yr Undeb Ewropeaidd, cafodd deddfwriaeth nwyon Ff yr UE, gan gynnwys Rheoliad (UE) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ei chymathu yng nghyfraith y DU a gwnaed diwygiadau technegol i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithredu'n briodol fel cyfraith ddomestig y DU.

[6] Yn y ddogfen hon, rydym yn cyfeirio at Atodiad V y Rheoliad nwyon Ff fel 'Atodiad 5'.

[7] Mae CO2e yn fesur o faint mae nwy'n ei gyfrannu at gynhesu byd-eang, o'i gymharu â charbon deuocsid.

defnyddio ar unrhyw adeg. O ran rhoi adroddiadau ar awdurdodiadau cwota, ystyrir bod y cwota wedi'i roi ar y farchnad ar adeg yr awdurdodi (Erthygl 18(2)), ac nid ar yr adeg pan roddir yr offer a lenwyd ymlaen llaw ar y farchnad. Gan nad oes cyfyngiad amser ar awdurdodiadau cwota, gellir eu 'bancio' a gallant gronni dros amser.

Mae cronfa sylweddol o awdurdodiadau a dirprwyaethau cwota yn system nwyon Ff Prydain Fawr (tua 9.4 MtCO2e yn 2023) a fydd yn cario drosodd am byth nes iddynt gael eu defnyddio. Mae'r ffaith fod y DU wedi gadael yr UE wedi effeithio ar faint cronfa awdurdodiadau cwota Prydain Fawr. Er mwyn lliniaru effaith gadael yr UE ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, roedd Erthygl 18(2) y Rheoliad nwyon Ff yn cynnwys darpariaethau a oedd yn galluogi i awdurdodiadau cwota ac awdurdodiadau cwota dirprwyedig yr UE nad oeddent wedi cael eu defnyddio ac a gyhoeddwyd cyn gadael yr UE gael eu defnyddio yn y farchnad ym Mhrydain Fawr yn hytrach nag ym marchnad yr UE. Trosglwyddwyd 8.9MtCO2e o awdurdodiadau a dirprwyaethau cwota heb eu defnyddio i Gofrestrfa nwyon HFC Prydain Fawr o Gofrestrfa nwyon HFC yr UE yn 2021. Mae cyfradd flynyddol defnyddio cwota Prydain Fawr wedi'i chofnodi fel 89.4%, 79.1% a 71.5% ar gyfer 2021, 2022 a 2023, yn y drefn honno.

Yn gyffredinol, mae'r polisi nwyon Ff yn cynnwys materion polisi datganoledig a materion polisi a gedwir yn ôl, ac mae'r cwestiynau datganoli yn cael eu hateb drwy gyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i redeg system nwyon Ff ledled Prydain Fawr ac mae trefniadau ar waith, wedi'u hategu gan fframwaith cyffredin. O dan y trefniadau hyn, Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am weinyddu a gweithredu agweddau ar system nwyon Ff Prydain Fawr ar ran Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru. Mae gan reoleiddwyr eraill, gan gynnwys Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban a Chyfoeth Naturiol Cymru, gyfrifoldebau hefyd, gan gynnwys mewn perthynas â chydymffurfio a gorfodi.

# Ymgynghoriad ar ddiwygio'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar gynigion penodol i ddiwygio'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC.  Rydym yn cynnig newid y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC yn y Rheoliad nwyon Ff drwy addasu'r amserlen bresennol o 2027 ymlaen ac ychwanegu camau pellach rhwng 2030 a 2050. Byddai'r addasiadau hynny'n golygu diwygio targed terfynol y gostyngiad graddol – hynny yw, disodli'r targed o ostyngiad o 79% erbyn 2030 â tharged o ostyngiad o 98.6% erbyn 2048. Mae dulliau eraill yn cael eu hystyried yn fanylach yn yr Asesiad De Minimis, a byddent yn golygu gostyngiadau terfynol o rhwng 97.6 a 100%, gydag opsiynau â llwybrau gostyngiad graddol llai uchelgeisiol yn debygol o gynhyrchu costau is i fusnesau ond yn llai buddiol i'r amgylchedd, ac i'r gwrthwyneb. Mae'r rhesymeg dros y cynnig a rhagor o fanylion amdano wedi'u nodi isod.

Mae'r adrannau canlynol yn nodi cefndir yr ymgynghoriad hwn, yr hyn nad yw'n rhan o gwmpas yr ymgynghoriad, manylion ein cynnig a chwestiynau ynghylch ein cynnig.

## Cefndir

### Rhwymedigaethau rhyngwladol

Ers i'r Rheoliad nwyon Ff gwreiddiol ddod i rym yn 2014, cymerwyd rhagor o gamau rhyngwladol i fynd i'r afael â'r defnydd o nwyon Ff, a nwyon HFC yn benodol.

Mae'r DU yn Barti i Brotocol Montreal ac mae wedi cadarnhau Diwygiad Kigali. Mae Diwygiad Kigali yn nodi amserlenni gostyngiadau graddol a'r blynyddoedd llinell sylfaen cysylltiedig ar gyfer cynhyrchu a defnyddio nwyon HFC i Bartïon sydd wedi cadarnhau'r Diwygiad. O dan y Diwygiad hwn, mae'n ofynnol i'r DU ostwng lefel cynhyrchu a defnyddio nwyon HFC 85% erbyn 2036.

Mae'r Rheoliad nwyon Ff yn rhan greiddiol o'r camau y mae'r DU yn eu cymryd i gyflawni ei rhwymedigaethau yn unol â Diwygiad Kigali ac mae'r gostyngiad graddol o dan y Rheoliad wedi golygu bod y DU ymhell ar y blaen i amserlen Diwygiad Kigali ar hyn o bryd. Er bod y DU ar y blaen i'r amserlen, ni fyddai targed y Rheoliad nwyon Ff o ostyngiad graddol o 79% yn llwyr gyflawni'r darpariaethau a geir yn Niwygiad Kigali, sef gostyngiad o 85% yn lefel y cynhyrchu a'r defnydd. Felly, mae angen diwygio'r gostyngiad graddol er mwyn mynd i'r afael â hyn.

### Ymrwymiadau domestig

Mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi ymrwymo i sicrhau allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net. Mae gan nwyon HFC ran i'w chwarae i sicrhau bod amcanion

sero net yn cael eu cyflawni ledled y DU ac mae angen bod yn fwy uchelgeisiol o ran nwyon HFC er mwyn cefnogi hyn.

## Gogledd Iwerddon a deddfwriaeth yr UE

Yn 2024, diddymodd yr UE ei deddfwriaeth flaenorol ar nwyon Ff a phasio deddfwriaeth newydd.  Mae Rheoliad nwyon Ff 2024 yr UE[8] yn cynnwys (yn ei Atodiad 7) ostyngiad graddol diwygiedig mewn nwyon HFC o 2025 ymlaen, gan roi'r gorau iddynt yn llwyr erbyn 2050. Ceir darpariaethau adolygu, gan gynnwys mewn perthynas â rhoi'r gorau iddynt yn llwyr (Erthygl 35(6)). Mae gostyngiad graddol diwygiedig yr UE mewn nwyon HFC yn symud i ffwrdd oddi wrth ostyngiad graddol fesul cam canrannol ac, yn hytrach, yn gosod uchafswm (mewn tunelli o CO2e) ar gyfer pob cam o'r gostyngiad graddol. Mae Rheoliad nwyon Ff 2024 yr UE hefyd yn rhoi pwerau i'r Comisiwn Ewropeaidd wneud deddfau dirprwyedig i ddiwygio amserlen y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC, os oes angen, er mwyn iddo allu cyflwyno cwota yn benodol ar gyfer defnyddio'r nwyon mewn pympiau gwres (Erthygl 17(7)).

O dan delerau Fframwaith Windsor, mae Gogledd Iwerddon yn parhau i gymhwyso deddfwriaeth nwyon Ff yr UE fel rhan o'i mynediad deuol i farchnad yr UE a marchnad fewnol gweddill y DU. Nid ydym yn rhagweld y bydd y cynnig yn effeithio ar symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon nac yn gosod beichiau newydd sylweddol ar fusnesau yng Ngogledd Iwerddon oherwydd nod y cynnig yw addasu'r system bresennol yn hytrach na sefydlu system gwbl newydd. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd busnesau'n dal i allu rhoi offer wedi'u llenwi ymlaen llaw â nwyon HFC sy'n dod o Brydain Fawr ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon, yn unol â'r gofynion presennol o dan Reoliad Nwyon Ff yr UE 2024. Fel y nodwyd, mae gan y Comisiwn Ewropeaidd bwerau dirprwyedig i ddiwygio amserlen yr UE ar gyfer y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC, os oes angen, i ystyried y galw posibl am gyflwyno pympiau gwres. Ein hasesiad cychwynnol yw y gellid darparu ar gyfer y galw a ragwelir yng Ngogledd Iwerddon am nwyon HFC o ganlyniad i osod pympiau gwres o dan lefelau cwota presennol yr UE. Hefyd, bydd busnesau'n dal i allu mewnforio nwyon HFC mewn swmp i Ogledd Iwerddon os oes ganddynt ddigon o gwota'r UE. Hefyd, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd angen i symudiadau i mewn i Brydain Fawr barhau i fodloni rheolau Prydain ar gwotâu ac awdurdodiadau cwota yn y ddeddfwriaeth nwyon Ff a gymathwyd. Mae canllawiau ar y rheolau ar gyfer symudiadau o'r fath ar gael ar gov.uk.

## Asesu'r Rheoliad nwyon Ff

[8] Rheoliad (UE) 2024/573 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 7 Chwefror 2024 ar nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworineiddio, sy'n diwygio Cyfarwyddeb (UE) 2019/1937 ac yn diddymu Rheoliad (UE) Rhif 517/2014

Mae’r Rheoliad nwyon Ff yn cynnwys gofyniad cyfreithiol i adolygu effeithiau'r Rheoliad (erbyn diwedd 2022). Arweiniodd Defra adolygiad ar y cyd, ar ran Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, i asesu effaith y Rheoliad nwyon Ff a chyhoeddodd adroddiad asesu ym mis Rhagfyr 2022. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Rheoliad yn llwyddo yn ei brif amcan, gan leihau'r allyriadau cronnol amcangyfrifedig ym Mhrydain Fawr 20.7 miliwn tunnell o gywerthydd carbon deuocsid (MtCO2e) bob blwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2014 a 2023. Mae hyn yn ostyngiad o 18% yng nghyfanswm yr allyriadau nwyon Ff cronnol dros y deng mlynedd hyn. Roedd yr asesiad yn mesur buddion gros â gwerth ariannol o £1.9 – 8.5 biliwn a chyfanswm costau o tua £118 miliwn. Prif sbardun y llwyddiant hwn fu'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC ar gyfer Prydain Fawr.[9][10]

Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod agweddau ar y Rheoliad y gellid eu cryfhau neu eu diwygio. Mae'r cynnig yn yr ymgynghoriad hwn wedi cael ei lywio gan yr argymhellion hyn, yn ogystal ag ystyried ymrwymiadau sero net domestig a rhwymedigaethau rhyngwladol.

Roedd yr adroddiad asesu hefyd yn nodi y bydd angen ymestyn y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC er mwyn sicrhau bod Diwygiad Kigali yn parhau i gael ei roi ar waith, gan fod y Diwygiad hwnnw'n gofyn am ostyngiad graddol o 85% mewn defnydd (fel y'i diffinnir ym Mhrotocol Montreal) erbyn 2036. Bydd estyniad o'r fath yn rhoi rhagor o gefnogaeth i’r gwaith o gyflawni ymrwymiadau sero net ledled y DU. Mae adroddiad asesu 2022[11] a gwaith modelu i gefnogi datblygiad polisïau[12] wedi awgrymu bod lle i fod hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol gyda'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC na'r hyn sy'n ofynnol i gyrraedd y targed o 2036 yn Niwygiad Kigali. Gallai gostyngiad graddol mwy uchelgeisiol helpu i sicrhau rhagor o ostyngiadau mewn allyriadau i gefnogi sero net.[13]

## Blaenoriaethu

---

[9] Yr unig ostyngiadau mewn allyriadau nad oes modd eu priodoli i'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC yw'r rheini sy'n deillio o reoleiddio nwyon nad ydynt yn HFC (fel SF6), sy'n rhy fach i'w hadolygu.

[10] Mae allyriadau nwyon Ff wedi gostwng 4.1 MtCO2e y flwyddyn ledled y DU rhwng 2015 a 2022. Final UK greenhouse gas emissions national statistics: 1990 to 2022, gan ddefnyddio data o allyriadau nwyon tŷ gwydr terfynol 2022 – Tabl 1.1.

[11] Adroddiad asesu 2022 (gweler Adran 9, ‘HFC demand forecast’)

[12] Gweler Adran 6 yr Asesiad De Minimis ategol sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn. Mae rhagor o wybodaeth am yr Asesiad ar gael yn yr adran 'Asesiad De Minimis' isod.

[13] Roedd gwaith modelu Prydain Fawr ar nwyon HFC yn ystyried amrywiaeth o senarios ar gyfer gostyngiad graddol. Byddai'r senario fwyaf heriol a fodelwyd yn lleihau’r cwota 56.7 MtCO2e erbyn 2050.

Asesiad 2022 o'r Rheoliad nwyon Ff oedd y sylfaen ar gyfer y gwaith datblygu polisi rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru i ystyried opsiynau ar gyfer newid.

Cytunwyd ar dri amcan cyffredinol yn sail i'r gwaith hwn:

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau sero net ledled y DU.
- Sicrhau ein bod yn parhau i weithredu ar ein rhwymedigaethau rhyngwladol o dan Brotocol Montreal.
- Cefnogi nodau ehangach Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno system hyblyg ar gyfer y dyfodol er mwyn caniatáu digon o nwy at ddibenion buddiol. Mae hyn yn gysylltiedig yn benodol ag amcanion sero net a sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i bolisi nwyon Ff yn arwain at ganlyniadau niweidiol i bolisïau eraill sy'n cefnogi sero net ledled y DU, fel cyflwyno pympiau gwres.

Defnyddiwyd yr amcanion hyn i flaenoriaethu'r polisïau yr ystyriwyd eu diwygio. Drwy flaenoriaethu ar sail yr amcanion hyn, barnwyd bod rhai meysydd polisi a ystyriwyd ar y dechrau ar gyfer gwaith datblygu polisi, gan gynnwys y rhai a nodwyd yn adroddiad asesu 2022, y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i hyfforddiant ac ardystio, rhoi adroddiadau a labelu.

Fe wnaethom asesu'r opsiynau polisi a oedd yn weddill yn erbyn ffactorau llwyddiant hanfodol – y berthynas strategol ag amcanion polisi, fforddiadwyedd a'r gallu i gyflawni. Roedd cefnogi'r gwaith o ostwng allyriadau yn amcan allweddol ac felly roedd y gallu i weithredu'n brydlon (h.y. y gallu i gyflawni) yn hanfodol o safbwynt blaenoriaethu ymhellach a llunio rhestr fer. Yn sgil asesu'r opsiynau ar y rhestr hir, nodwyd mai'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC oedd y maes pwysicaf i'w ddiwygio.

## Polisïau nad ydynt o fewn cwmpas yr ymgynghoriad

Nid yw'r polisïau a drafodir yn yr adran hon o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gallai newidiadau rheoleiddiol eraill yn ymwneud â nwyon Ff gael eu hystyried yn y dyfodol. Mae Llywodraeth y DU, ar y cyd â Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru, wedi ymrwymo i ymchwilio ymhellach i feysydd ar gyfer diwygio nwyon Ff yr ystyrir eu bod y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Fel rhan o waith ehangach i ganfod ac, os oes angen, blaenoriaethu diwygiadau pellach posibl, mae'r tair gwlad yn bwriadu edrych ar opsiynau ynghylch defnyddio nwyon eraill wedi'u fflworineiddio yn y dyfodol, a allai gynnwys SF6 er enghraifft. Nod hyn yw adeiladu ar y cyhoeddiad a nodwyd yn strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth y DU.

### Dyrannu Cwota

Mae Erthyglau 16, 17 a 18 y Rheoliad nwyon Ff yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer dyrannu a throsglwyddo cwotâu, ac mae Atodiad 6 yn nodi'r dull. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newidiadau i Atodiad 6 nac Erthygl 16, 17 na 18 gan fod asesiadau polisi'n

awgrymu na fyddai diwygio'r drefn o ddyrannu cwota yn arwain at lawer mwy o ostyngiadau mewn allyriadau ar hyn o bryd.

### Mewnanadlyddion Dos Mesuredig (MDI)

Mae’r mewnanadlyddion hyn – mewnanadlyddion asthma, er enghraifft – yn dibynnu ar nwyon HFC i wthio’r feddyginiaeth o’r mewnanadlydd. Mae esemptiadau o dan Erthygl 15(2) o’r Rheoliad nwyon Ff yn eu heithrio rhag y gofynion o ran y gostyngiad graddol a’r cwota. Er bod ymdrechion sero net yn annog dewisiadau amgen sydd â photensial cynhesu byd-eang (GWP) is, mae gwaith dadansoddi’n dangos mai ychydig iawn o ostyngiadau tymor byr mewn allyriadau a fyddai’n deillio o reoleiddio pellach. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnig newidiadau i ddeddfwriaeth nwyon Ff sy'n gysylltiedig ag MDI.

### Peirianwaith Switsio wedi'i Ynysu gan Nwy – SF6

Mae SF6 yn nwy tŷ gwydr cryf iawn, gyda GWP sydd 22,800 gwaith yn fwy na $CO_2$, ac roedd yn gyfrifol am 4% o allyriadau nwyon Ff y DU yn 2023. Gallai twf disgwyliedig y grid trydan ysgogi rhagor o ddefnydd o SF6, gan gynyddu’r allyriadau. Fodd bynnag, mae datblygiadau mewn technolegau amgen yn lleihau'r ddibyniaeth ar SF6. Mae strategaeth ddiwydiannol Llywodraeth y DU yn amlinellu cynlluniau i archwilio ffyrdd o sbarduno'r broses o roi'r gorau’n raddol i ddefnyddio nwy SF6 mewn peirianwaith switsio yn seilwaith y rhwydwaith trydan, a hynny er mwyn helpu gweithgynhyrchwyr yn y DU i fachu marchnad sy’n datblygu a manteisio ar safle'r DU ar flaen y gad o ran datblygu dewisiadau amgen i beirianwaith switsio sy’n defnyddio SF6.

### Hyfforddi ac Ardystio Technegwyr

Mae Erthygl 10 y Rheoliad nwyon Ff yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer hyfforddiant ac ardystio gorfodol i dechnegwyr sy'n trin offer sy'n cynnwys nwyon Ff. Wrth i’r defnydd o nwyon amgen gynyddu, mae diwydiannau wedi galw am fframwaith ardystio tebyg, yn enwedig ar gyfer oeryddion fflamadwy neu wenwynig. Er bod cyrsiau gwirfoddol ar gael, gallai adolygiad pellach archwilio gofynion hyfforddi megis y rhai sydd o fewn Fframwaith Cymhwysedd Technegol Gorfodol Llywodraeth y DU. Bydd darpariaethau'r Fframwaith yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â gofynion cymhwysedd ar gyfer gosodwyr wrth drin oeryddion fflamadwy.

### Adfer nwyon Ff


Mae adfer yn agwedd allweddol ar reoli nwyon Ff, gan atal allyriadau diangen a galluogi adennill neu waredu mewn ffordd ddiogel. Drwy adfer mewn ffordd briodol, gellir sicrhau nad yw nwyon Ff sydd â GWP uchel, yn enwedig nwyon HFC, yn cyfrannu'n ddiangen at newid yn yr hinsawdd. Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd adfer ac mae’n bosibl y byddant yn ystyried mesurau yn y dyfodol i wella arferion adfer, gan gefnogi ymrwymiadau sero net.

## Asesiad De Minimis

Mae Asesiad De Minimis yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn. Mae'n rhoi cyd-destun manylach ar gyfer y diwygio arfaethedig ar y gostyngiad graddol, ac yn rhoi manylion am ganlyniad ein harfarniad o wahanol opsiynau. Mae hefyd yn cynnwys y tybiaethau ar gyfer y gwaith modelu a dadansoddi sy'n sail i'n cynnig, a gwybodaeth am y gwaith hwnnw.

Mae'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer Prydain Fawr yn un o chwe opsiwn terfynol ar y rhestr fer ar gyfer y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC a aseswyd i ddechrau. Dangosir pump o'r opsiynau hyn yn Ffigur 1: Busnes Fel Arfer; gostyngiad graddol ag uchelgais ganolig; anelu’n uwch o ran y gostyngiad graddol (sef yr hyn sy’n cael ei gynnig); cyd-fynd â gostyngiad graddol diwygiedig yr UE (a ddisgrifir yn yr adran ar Ogledd Iwerddon a deddfwriaeth yr UE); a'r gostyngiad graddol mwyaf heriol. Nid yw’r dull nad yw’n un rheoleiddiol, sef y chweched is-opsiwn ar y rhestr fer, wedi’i gynnwys yn Ffigur 1 gan y byddai'n golygu symud oddi wrth amserlen ar gyfer gostyngiad graddol mewn nwyon HFC a dibynnu ar gamau gweithredu gan y diwydiant.

**Ffigur 1**




Mae gwahaniaethau nodedig rhwng marchnadoedd nwyon HFC Prydain Fawr a'r UE sy'n golygu nad cyd-fynd â gostyngiad graddol yr UE yw’r dewis gorau ym Mhrydain Fawr. Fe edrychodd adroddiad asesu 2022 ar y gwahaniaethau rhwng y marchnadoedd yn yr UE ac ym Mhrydain Fawr, a pham y gallai cynnig 2022 y Comisiwn Ewropeaidd, a oedd yn sail i

Reoliad nwyon Ff 2024 yr UE, fod yn anghyraeddadwy i Brydain Fawr[14]. Er enghraifft, mae'r UE yn defnyddio mwy o aerdymheru, tra bod y farchnad ym Mhrydain Fawr yn defnyddio (ac yn bwriadu parhau i ddefnyddio) mwy o bympiau gwres yn gyfrannol.

Yn sgil ymgysylltu â busnesau a sefydliadau yn y sector RACHP tynnwyd sylw at bryderon ynghylch diogelwch ac effeithlonrwydd ynni yn sgil defnyddio nwyon amgen, mewn rhai sefyllfaoedd, pe bai'r farchnad ym Mhrydain Fawr yn wynebu newid brys nad yw'n ystyried amgylchiadau domestig. Er y byddai llai o ostyngiadau o ran allyriadau, byddai cyflwyno camau cynnar o ran gostyngiad graddol a fyddai'n ystyried hyn fel rhan o unrhyw ddiwygiadau yn rhoi amser i ddiwydiant Prydain wneud y newid.

Mae'r opsiynau sydd ar y rhestr fer ar gyfer y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC wedi cael eu paratoi gan ddefnyddio model nwyon Ff Prydain Fawr, sy'n cynnwys rhagdybiaethau ar gyfer y galw am nwyon HFC ar draws yr amrywiol gyd-destunau defnydd a sectorau. Mae craffu ar ddichonoldeb y tybiaethau sy'n sail i'r model yn rhoi mwy o hyder bod y diwygiadau arfaethedig yn cydbwyso uchelgais o ran yr hinsawdd â gallu'r diwydiant i gyflawni. Mae'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn yn ceisio profi'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r gostyngiad graddol arfaethedig a cheisio barn ar y cynnig ei hun (neu ar newidiadau iddo).

## Cynnig i ddiwygio'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC

Ymgynghoriad ar ddiwygio deddfwriaethol arfaethedig yw hwn: newidiadau wedi'u targedu i amserlen y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC ar gyfer Prydain Fawr, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 5 y Rheoliad nwyon Ff. Byddai'r diwygiad hwn yn cyfyngu ymhellach ar gyfanswm cyffredinol y nwyon HFC y gellir eu rhoi ar y farchnad ym Mhrydain Fawr. Byddai'r newidiadau i'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC yn dechrau o 1 Ionawr 2027.

Mae'r cynnig yn yr ymgynghoriad hwn wedi cael ei ddatblygu drwy gydweithio rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gan fod y cynnig i newid y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC ar gyfer Prydain Fawr yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl, mae Ysgrifennydd Gwladol Defra yn ymgynghori ar y cynnig.

Os byddwn, yn dilyn yr ymgynghoriad hwn ac ystyriaeth ddilynol gan y Llywodraeth, yn penderfynu bwrw ymlaen â diwygiadau, byddai'r rheini'n ddiwygiadau deddfwriaethol.

[14] Adroddiad asesu 2022 (gweler tudalen 79).

Mae dull wedi'i dargedu wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y diwygiadau a gynigir, gyda'r nod o roi newidiadau ar waith a fydd yn cyfrannu at fwy o ostyngiadau mewn allyriadau cyn gynted â phosibl.

## Cynnig i ddiwygio'r ddeddfwriaeth ynghylch y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC

Mae Atodiad 5 y Rheoliad nwyon Ff yn nodi'r amserlen bresennol ar gyfer y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC. Dechreuodd cam diweddaraf y gostyngiad graddol ar 1 Ionawr 2024, gan leihau cyfanswm y nwyon HFC a roddwyd ar y farchnad ym Mhrydain Fawr i 31% o linell sylfaen 2015-2019, neu ostyngiad cyfatebol o 69% mewn nwyon HFC. Mae Colofn 2 yn Nhabl 1 isod yn dangos camau canrannol y gostyngiad graddol o 2027 ymlaen o dan y Rheoliad nwyon Ff presennol.

**Rydym yn cynnig newid amserlen y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC i:**

1) **Addasu amserlen bresennol y gostyngiad graddol ar sail canrannau o 1 Ionawr 2027; ac**
2) **Ychwanegu rhagor o gamau gostwng graddol rhwng 2030 a 2050.**

**Mae'r newidiadau a'r ychwanegiadau arfaethedig i amserlen y gostyngiad graddol i'w gweld yng Ngholofn 3 yn Nhabl 1. Bydd y cynnig yn arwain at ostyngiad graddol sy'n gynt ac sy'n mynd ymhellach na'r gostyngiad graddol ar hyn o bryd.**

**Tabl 1**

| Colofn 1<br><br>Blynyddoedd | Colofn 2<br><br>Y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC ar hyn o bryd – Rheoliad nwyon Ff (Atodiad 5) | Colofn 3<br><br>Opsiwn gostyngiad graddol <u>uchelgais uchel</u> (a gynigir) | Colofn 4<br><br>Opsiwn gostyngiad graddol uchelgais ganolig | Colofn 5<br><br>Opsiwn cyd-fynd â gostyngiad graddol yr UE | Colofn 6<br><br>Yr opsiwn mwyaf heriol ar gyfer gostyngiad graddol |
|---|---|---|---|---|---|
| **2024-2026** | 31% | - | - | - | - |
| **2027-2029** | 24% | 16.2% | 20.6% | 13.1% | 9.3% |
| **2030-2032** | 21% | 10.3% | 15.4% | 5.2% | 5.9% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2033-2035** | 21% | 6.7% | 10.5% | 4.8% | 3.7% |
| **2036-2038** | 21% | 4.8% | 7.3% | 3.8% | 2.7% |
| **2039-2041** | 21% | 3.2% | 5.3% | 3.5% | 1.8% |
| **2042-2044** | 21% | 2.1% | 3.8% | 3.1% | 1.2% |
| **2045-2047** | 21% | 1.6% | 2.9% | 2.7% | 0.9% |
| **2048-2050** | 21% | 1.4% | 2.4% | 2.4%<br>DS: 0% yn 2050 | 0.8% |

Ar ôl arfarnu ein rhestr fer o opsiynau ar gyfer diwygio ac ystyried y gallu i'w cyflawni, dewiswyd yr opsiwn anelu'n uchel fel y cynnig i'w gyflwyno ar gyfer ymgynghori arno. Mae rhagor o fanylion yn yr Asesiad De Minimis. Wrth ddatblygu'r cynnig, rydym wedi ceisio cydbwyso ystyriaethau amrywiol sy'n ymwneud â'r tri amcan cyffredinol ar gyfer datblygu polisi a amlinellwyd uchod. Credwn y bydd y cynnig yn sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau yn y dyfodol, ac ar yr un pryd yn caniatáu digon o amser i ddiwydiant Prydain newid i ddefnyddio dewisiadau amgen yn hytrach na nwyon HFC. Mae'r diwygiad arfaethedig yn ystyried cyfleoedd a gofynion unigryw'r farchnad ym Mhrydain Fawr ac mae'n cefnogi targedau ehangach y Llywodraeth, fel darparu ar gyfer y galw a ragwelir mewn nwyon HFC o ganlyniad i gyflwyno pympiau gwres.

Mae Adran 4 yr Asesiad De Minimis a gyhoeddir ar y cyd â'r ddogfen hon yn cynnwys rhagor o fanylion am sut mae'r cynnig yn bodloni amcanion y Llywodraeth ac mae Adran 6 yn cynnwys arfarniad cyflawn o'r rhestr fer. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynnig penodol ar gyfer newid amserlen y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC. Fodd bynnag, mae croeso i ymatebwyr i'r ymgynghoriad adlewyrchu safbwyntiau ar yr holl opsiynau a nodir yn yr Asesiad De Minimis yn eu hymatebion, y bydd y llywodraeth yn eu hystyried yn ei hymateb i'r ymgynghoriad.

Rydym yn awyddus i gasglu tystiolaeth a safbwyntiau ar y cynnig. Er mwyn sicrhau y gallwn ymgorffori'r adborth a geir yn y ffordd orau bosibl i wella a mireinio ein tybiaethau a'n gwaith modelu, dylech edrych ar yr Asesiad De Minimis a'r daenlen Tybiaethau Technegol a Data nwyon Ff ategol cyn ateb y cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn.

# Cwestiynau am y cynnig

**Cyfrinachedd**

A ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

Ydw/Nac ydw

(Os mai Ydw oedd eich ateb i'r cwestiwn hwn, nodwch eich rheswm/rhesymau.)

**Dosbarthiad**

## Cwestiwn 1

Sut orau fyddech chi'n disgrifio eich ymwneud â'r diwydiant?

Gweithgynhyrchu offer / Mewnforio nwy / Busnes gosod, cynnal a chadw, gwasanaethu, adfer / Corff masnach / Ymgynghorydd / Corff anllywodraethol / Sefydliad y Llywodraeth / Arall [rhowch fanylion]

## Cwestiwn 2

Os mai busnes ydych chi, pa faint ydych chi ar sail nifer eich gweithwyr?

Micro (1 – 9 o weithwyr) / Bach (10 – 49 o weithwyr) / Canolig (50 – 249 o weithwyr) / Mawr (250 a mwy o weithwyr) / Amherthnasol

**Y Cynnig**

## Cwestiwn 3

Gan nodi'r wybodaeth yn yr ymgynghoriad hwn a'r rhestr fer o opsiynau gostyngiad graddol yn yr Asesiad De Minimis, a ydych chi'n cytuno â'n newidiadau arfaethedig i amserlen y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC?

Ydw / Nac ydw / Arall

(Rhowch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ymateb, gan gynnwys a yw'n well gennych opsiwn arall, ac atodwch dystiolaeth ategol os dymunwch)

## Cwestiwn 4

Mae Asesiad De Minimis yn cyd-fynd â'r ddogfen ymgynghori hon ac yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â hi.  Rydym yn defnyddio'r tybiaethau a'r data yn y daenlen Tybiaethau Technegol a Data sydd wedi'i hatodi i'r Asesiad De Minimis i lywio'r model yr ydym wedi

seilio’r diwygiadau a gynigir arno. Ydych chi'n fodlon ar gywirdeb y data hyn? Os nad ydych, rhowch wybodaeth i wella ein dealltwriaeth.

Ydw / Nac Ydw / Ddim yn gwybod

(Rhowch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ymateb ac atodwch dystiolaeth ategol os dymunwch)

## Cwestiwn 5

Mae'r cynnig ar gyfer diwygio wedi cael ei lywio gan y tybiaethau a nodir yn y daenlen Tybiaethau Technegol a Data. Ydych chi'n cytuno â'r tybiaethau yn y daenlen Tybiaethau Technegol a Data ynghylch y gyfradd ollwng, adfer, maint llenwi a chost yr offer (cychwynnol a chynnal a chadw)? Os nad ydych, rhowch wybodaeth i wella ein dealltwriaeth.

Ydw / Nac Ydw / Ddim yn gwybod

(Rhowch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ymateb ac atodwch dystiolaeth ategol os dymunwch)

## Cwestiwn 6

Wrth ddatblygu'r cynnig ar gyfer diwygio, rydym wedi defnyddio'r fethodoleg costau a nodir yn yr Atodiad Technegol (Atodiad 3 yr Asesiad De Minimis). Er mwyn helpu i lywio ein hamcangyfrifon, ydych chi'n gallu darparu unrhyw ddata ar yr effeithiau cost disgwyliedig ar eich busnes yn sgil yr addasiadau arfaethedig a'r estyniad i'r gostyngiad graddol mewn nwyon HFC ar gyfer Prydain Fawr?

Ydw / Nac Ydw / Ddim yn gwybod

(Rhowch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ymateb ac atodwch dystiolaeth ategol os dymunwch)

## Cwestiwn 7

Gan ystyried y cynnig ar gyfer diwygio, ydych chi'n gallu rhoi unrhyw adborth ar effeithiau ehangach ychwanegol ar fusnesau, fel effeithiau posibl ar arloesi (er enghraifft, offer sy'n dibynnu ar ddewisiadau amgen i nwyon HFC), cystadleuaeth a masnach, gofynion hyfforddi a sgiliau (yn enwedig o ran dewisiadau amgen i nwyon HFC) a buddsoddiad yn y sector?

Ydw / Nac Ydw / Ddim yn gwybod

(Rhowch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ymateb ac atodwch dystiolaeth ategol os dymunwch)

## Cwestiwn 8

Ydych chi’n gallu rhoi gwybodaeth am y systemau oeri, aerdymheru a phympiau gwres sydd ar gael ar hyn o bryd ym Mhrydain nad ydynt yn rhai HFC, ac a oes unrhyw gyfyngiadau technegol neu gadwyn gyflenwi sy'n effeithio ar eu defnydd?

Ydw / Nac Ydw / Ddim yn gwybod

(Rhowch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ymateb ac atodwch dystiolaeth ategol os dymunwch)

## Cwestiwn 9

Ydych chi’n gallu rhoi amcangyfrif ynghylch a fydd unrhyw gostau busnes ychwanegol a ysgwyddir o ganlyniad i'r diwygio arfaethedig yn cael eu trosglwyddo i'r defnyddiwr (ac, os felly, faint)?

Ydw / Nac Ydw / Ddim yn gwybod

(Rhowch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ymateb ac atodwch dystiolaeth ategol os dymunwch)

## Cwestiwn 10

Os ydych chi'n ficrofusnes neu’n fusnes bach (1-49 o weithwyr), ydych chi'n gallu rhoi unrhyw wybodaeth am effeithiau, gan gynnwys ar gostau ychwanegol, yn sgil y diwygio arfaethedig ar y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC?

Ydw / Nac Ydw / Ddim yn gwybod

(Rhowch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ymateb ac atodwch dystiolaeth ategol os dymunwch)

## Cwestiwn 11

Os ydych chi'n fusnes Canolig (50-249 o weithwyr), ydych chi'n gallu rhoi unrhyw wybodaeth am effeithiau, gan gynnwys ar gostau ychwanegol, yn sgil y diwygio arfaethedig ar y gostyngiad graddol mewn nwyon HFC?

Ydw / Nac Ydw / Ddim yn gwybod

(Rhowch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ymateb ac atodwch dystiolaeth ategol os dymunwch)

### Cwestiwn 12

Ydych chi'n rhagweld y bydd yr effeithiau ar fusnes yn sgil y diwygio arfaethedig yn wahanol mewn gwahanol ranbarthau ledled Prydain Fawr ac, os felly, sut?

Ydw / Nac Ydw / Ddim yn gwybod

(Rhowch ragor o wybodaeth i gefnogi eich ymateb ac atodwch dystiolaeth ategol os dymunwch)